# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 16EG MEHEFIN, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 8 Mehefin 2026)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Arwyn Herald Roberts
Olaf Cai Larsen
Sian Williams
[Sedd Wag]
Edgar Wyn Owen
Ioan Thomas
Beca Roberts
Elin Hywel
[Sedd Wag]

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Anne Lloyd-Jones
Eryl Jones-Williams
Dewi Owen

## Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2026/27.

**2. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater o frys yn nhyb y cadeirydd er mwyn eu hystyried.

**5. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24ain Chwefror,2026 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir. .

**6. DRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH** 9 - 22

I ystyried yr adroddiad a'i gynnwys a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

**7. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL MAI 2027** 23 - 25

I gyflwyno diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi at Etholiad 2027

**8. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH HYBU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH** 26 - 31

I gyflwyno datganiad drafft ynghyd â'r rhaglen waith i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu

**9. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 32 - 34

Cyflwyno diweddariad o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 24/02/26**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd-Jones (Cadeirydd), Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Ioan Thomas, Edgar Wyn Owen, Beca Roberts, Cai Larsen, Stephen Churchman

**Swyddogion yn bresennol:**

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Alun Lloyd Williams (Arweinydd Talent o Phrentisiaethau) Catrin Owen (Swyddog Datblygu Aelodau) a Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sian Williams, Robert Dewi Owen, Anwen Jane Davies, Arwyn Herald Roberts,.
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mari Edwards (Rheolwr Dysgu a Datblygu), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol)

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Ni nodwyd unrhyw faterion brys.

4. **COFNODION**

   Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 04 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

5. **CEFNOGAETH I GYNGHORWYR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Tîm Democratiaeth. Soniwyd am yr Holiadur Bodlonrwydd sydd yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau yn flynyddol ac yn holi am y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig gan y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth. Nodwyd bod 27 Aelod wedi ymateb i'r Holiadur, sydd yn llai na'r cyfartaledd sydd wedi ymateb dros y blynyddoedd diwethaf. Cydnabuwyd bod y cyfnod prysur gyda chyfarfodydd arbennig o'r Cyngor Llawn a Phwyllgorau Craffu o bosib wedi arwain at lai yn ymateb. Er hyn, amlygwyd bod 88% wedi nodi fod y gwasanaeth yn "dda iawn"

gyda 11% yn nodi “da”, sydd yn gynnydd o’r llynedd pan nododd un Cynghorydd fod y safon yn “dderbyniol”. Amlygwyd rhai enghreifftiau o’r sylwadau a dderbyniwyd sydd yn dynodi bodlonrwydd uchel, gydag argaeledd a phrydlondeb ymateb y tîm yn cael ei amlygu wrth iddynt gynnig cefnogaeth o ansawdd.

Cyfeiriwyd at awgrymiadau aelodau i wella’r ddarpariaeth. Nodwyd bod aelod wedi cynnig byddai ‘cael gwybodaeth gyfredol a chywir ar safle'r cyngor i gynghorwyr am enwau staff pob adran a rhif ffôn yn ddefnyddiol’. Cynigodd Aelod y syniad o ddatblygu Ap, a chadarnhaodd yr Arweinydd Tîm y byddai yn cysylltu gyda’r unigolyn i drafod y syniad ymhellach. Wrth gyfeirio at y bwletin aelodau, sydd yn mynd allan i aelodau yn wythnosol, cadarnhawyd bod yr holiadur yn dangos bod rhan fwyaf o’r aelodau yn ei ddarllen ac yn fodlon gyda’r cynnwys.

Adroddwyd bod Aelodau wedi mynegi rhwystredigaeth am oedi mewn ymateb gan Swyddogion ac Adrannau o fewn y Cyngor a sicrhawyd bod gwaith pellach yn mynd rhagddo gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol i edrych mewn manylder ar y mater. Gobeithiwyd byddai adroddiad pellach yn diweddaru ar y gwaith yma yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor hwn yn ystod tymor yr haf. Croesawyd i Aelodau i gysylltu efo’r tîm ar unrhyw bryd am unrhyw gymorth.

Mynegodd Aelod ei fod wedi cael trafferth cwblhau’r Holiadur Aelodau ar-lein. Mewn ymateb, cadarnhawyd byddai’r Adran yn gyrru copi ar bapur iddo drwy’r post i’r dyfodol.

Wrth gyfeirio at yr Holiadur, eglurwyd bydd y wybodaeth sydd yn deillio o’r ymatebion yn cael ei ddefnyddio wrth baratoi’r gwaith etholiad ar gyfer y flwyddyn nesaf. Holodd Aelod am fwy o fanylion ynglŷn â'r gwelliannau ar y gweill erbyn etholiad 2027. Mewn ymateb, sicrhawyd bod y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu’r gefnogaeth gorau posib i aelodau’r sir. Cadarnhawyd bod yr Arweinydd Tîm Democratiaeth a Rheolwr y Gwasanaeth yn y broses o greu rhaglen waith ar gyfer etholiad 2027 i ddatblygu a mireinio’r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu. Gobeithiwyd cyflwyno adroddiad ar y gwaith i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Mehefin, fydd yn nodi’r camau gweithredol ar y gweill ac yn cynnig cyfle i gael mewnbwn yr aelodau i sicrhau eu bod yn rhan o’r broses ragweithiol o lunio’r rhaglen croesawu ac anwytho erbyn y cyfnod etholiadol.

Manylwyd fod ail holiadur wedi ei anfon eleni, sef y ‘Mewnrwyd a Mwy’, gyda 19 aelod yn nodi eu bod yn gwneud defnydd cyson o’r Fewnrwyd aelodau. Nodwyd bod elfennau angen eu gwella er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyson ac yn gyfredol. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd mai cymysgedd o swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros ddiweddaru’r Fewnrwyd Aelodau, gan gynnwys Swyddogion Tîm Democratiaeth, y Swyddog Dysgu a Datblygu Aelodau a’r Tîm Cyfathrebu yn bennaf.. Eglurwyd bod y gwaith diweddaru yn gyfrifoldeb trawsadrannol, gan fod y wybodaeth a’r arbenigedd perthnasol wedi’u lleoli mewn gwahanol dimau. Cadarnhawyd mai’r Tîm Gwasanaethau Democrataidd sydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Fewnrwyd Aelodau yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ac yn gweithredu’n effeithiol er budd yr aelodau, gan mai’r tîm hwn sydd gyfrifol am ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i aelodau’r Cyngor.
Holodd Aelod pam nad yw’r holl gyfarfodydd anffurfiol, megis fforymau ardal, wedi’u cynnwys yn y Calendr Pwyllgorau ar gyfer y flwyddyn. Mewn ymateb, cadarnhawyd

bod y cyfarfodydd hyn yn fewnol ac anffurfiol, ac felly nid ydynt yn cael eu cyhoeddi ar system Modern Gov a defnyddir gan yr adran. Eglurwyd nad yw papurau'r cyfarfodydd yn gyhoeddus ac mai dim ond yr aelodau perthnasol sydd yn eu derbyn.. Eglurwyd mai'r cyfarfodydd cyhoeddus yn unig sydd yn cael eu cynnwys yn y calendr Pwyllgorau ar y wefan er gwybodaeth i'r cyhoedd. Ystyriwyd cynnwys cyfarfodydd mewnol yn y Calendr Pwyllgorau ar gyfer y flwyddyn a chadarnhawyd bydd Swyddogion yn asesu hyn yn y dyfodol. Cydnabuwyd fod rhai gwahaniaethau yn parhau rhwng gwahanol fathau o gyfarfodydd a fforymau, a bod yr adran yn bwriadu adolygu a thacluso'r manylion hyn dros y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

## 6. CALENDR PWYLLGORAU 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democratiaeth. Amlygwyd bod dyddiad y cyfarfod Blynyddol y Cyngor Llawn eleni wedi cael ei wthio ymlaen i 14 o Fai, oherwydd bod etholiad Senedd Cymru yn cael ei gynnal ar y 7fed o Fai 2026. Cadarnhawyd bod y calendr wedi'i drafod gyda'r Parc Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Tân, ac o ganlyniad bu'n angenrheidiol addasu rhai dyddiadau er mwyn lleihau ac osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd. Penderfynwyd yn y Fforwm Craffu bydd dau gyfarfod (o'r Pwyllgor Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal) yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf er mwyn osgoi cynnal y cyfarfodydd yn ystod y cyfnod cyn etholiadol. Nodwyd nad yw'r dyddiadau yma wedi eu nodi yn y calendr ddrafft ond byddent yn cael eu hychwanegu cyn cyhoeddi papurau cyfarfod y Cyngor Llawn. Amlygwyd bod dyddiad y Cyngor Llawn ym mis Mai 2027 yn hwyrach ymlaen hefyd oherwydd etholiad awdurdod lleol, a bydd angen cyfnod i anwytho aelodau newydd cyn cyfarfod blynyddol y Cyngor.

Holodd aelod os oes modd cynnwys y cyfarfodydd anffurfiol yn y Calendr. Mewn ymateb, cadarnhawyd y bydd swyddogion yn gwneud pob ymdrech i adnabod dyddiadau cyfarfodydd mor fuan â phosib ar ôl mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ffurfiol er mwyn sicrhau bod Aelodau yn derbyn gwahoddiadau i'r cyfarfodydd sydd i ddod yn y flwyddyn.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai un cyfarfod yn unig sydd wedi ei raglennu ar gyfer y Pwyllgorau Harbwr ar draws y sir. Cydnabuwyd mai camgymeriad yw hyn a bydd hwn yn cael ei addasu cyn i'r papurau ffurfiol gael eu cyhoeddi ar gyfer mabwysiadu yn y Cyngor Llawn. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod y nifer o gyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn flynyddol yn seiliedig ar y penderfyniad a geisir yn y Cyngor Llawn yn 2022. Cyfeiriwyd at yr holiadur a gafodd ei anfon at yr holl aelodau yn 2022. Cadarnhawyd bod Aelodau wedi cael cyfle i nodi pa amseroedd fydd mwyaf cyfleus iddynt fynychu cyfarfodydd er mwyn hwyluso'r trefniadau. Atgoffwyd yr aelodau y bydd holiadur yn mynd allan i aelodau eto yn syth ar ôl yr etholiad awdurdod lleol/ cychwyn y tymor etholiadol nesaf, er mwyn darganfod dymuniadau aelodau ar gyfer y cyfnod nesaf.

Holodd Aelod beth yw'r posibilrwydd o gynnal mwy o gyfarfodydd hybrid a llai o gyfarfodydd rhithiol yn unig. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y gwasanaeth eisoes

yn cynnal darpariaeth cyfarfodydd hybrid i  gyfarfodydd Y Cyngor Llawn, Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Chynllunio yn dilyn egwyddor sefydlwyd yn 2021. Eglurwyd bod cynnal cyfarfodydd hybrid angen llawer mwy o adnoddau o gymharu â chyfarfodydd rhithiol yn unig. Sicrhawyd yr aelodau y bydd ystyriaeth ynghylch cynyddu darpariaeth hybrid yn mynd rhagddi a bod y sefyllfa yn cael ei fonitro a'i adolygu yn gyson.

Gofynnwyd am fwy o fanylion ynghylch cofnod presenoldeb mewn pwyllgorau a chyfarfodydd. Cadarnhawyd bod presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cofnodi ar safle we'r Cyngor. Ystyriwyd rhesymau amrywiol Aelodau am fethu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd a phwyllgorau, a gofynnwyd beth yw'r posibilrwydd o adlewyrchu'r rhesymeg dros ymddiheuriadau ar safle we y Cyngor. Gofynnwyd sut gellir gwahaniaethu rhwng y rhesymau amrywiol, tra bod rhai aelodau methu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill fel rhan o'u rôl fel cynghorwyr. Cydnabuwyd bod presenoldeb Cynghorwyr mewn cyfarfodydd y Cyngor ddim o reidrwydd yn adlewyrchiad cyflawn o'u gwaith. Sicrhawyd bydd modd ystyried cynnwys rhesymau dros ymddiheuriadau ar y wefan i ddangos bod Aelodau yn ymddiheuro oherwydd eu bod yn ymgymryd â dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad, gan nodi'r newidiadau ac ychwanegiadau a drafodwyd, gan argymell y Calendr Pwyllgorau i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.**

7. **DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd Talent a Phrentisiaethau, yn absenoldeb y Rheolwr Dysgu a Datblygu. Cadarnhawyd penodiad Swyddog Datblygu Aelodau newydd a chroesawyd Catrin Owen i'r swydd.

Manylwyd ar yr 8 Maes Craidd sydd wedi eu hadnabod i Aelodau, gan nodi bod Aelodau yn cael eu hannog a'u hatgoffa yn barhaus i'w cwblhau fel isafswm er mwyn gallu cyflawni eu rôl fel cynghorwyr yn effeithiol. Mynegwyd siom nad oes cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o Aelodau sydd wedi cwblhau rhagor o'r teitlau craidd ers mis Chwefror llynedd. Mynegwyd rhwystredigaeth bellach fod 7 Aelod heb gwblhau dim un o'r wyth teitl Craidd, yn dilyn amryw geisiadau i wneud.  Atgoffwyd bod darpariaeth y cyrsiau craidd ar gael ar lein i aelodau gael mynediad iddynt ar unrhyw adeg a chroesawyd aelodau i gysylltu unrhyw bryd os oes unrhyw drafferthion. Nodwyd bod yr adran wedi uwch lwytho fideos a datblygu adnoddau ar y Fewnrwyd Aelodau i geisio hwyluso trefniadau. Eglurwyd bod hyn yn galluogi aelodau i wylio'r fideos ar amser cyfleus iddynt. Anogwyd aelodau i fynychu'r sesiwn hyfforddiant diogelu ar y 6 o Fawrth.

Soniwyd bod cyfle i Aelodau dderbyn sgyrsiau datblygiad personol a bod rhai eisoes wedi manteisio ar y cynnig. Croesawyd Aelodau i gysylltu efo'r Rheolwr Dysgu a Datblygu'r adran os ydynt awyddus i ychwanegu unrhyw deitl neu sesiwn hyfforddiant gan ei fod yn flwyddyn olaf y cyfnod etholiadau presennol. Cyfeiriwyd at y teitl newydd - 'Arweinyddiaeth Ward' sydd mewn datblygiad ar hyn o'r bryd, gan nodi bod trefniadau mewn lle i sefydlu hwn yn fuan. Ymhelaethwyd bod trafodaethau gyda phenaethiaid

adran yn mynd rhagddynt i bennu cynigion hyfforddiant pellach ar gyfer y cyfnod etholiadol newydd.

Mynegwyd siom bod 6 aelod heb gwblhau dim o'r hyfforddiant, yn enwedig y maes Cod Ymddygiad. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cwblhau'r cyrsiau craidd, Nodwyd pwysigrwydd y cyrsiau craidd a'r posibilrwydd o'u hailenwi fel meysydd mandadol. Atgoffwyd bod y nifer o gyrsiau a gwblhawyd gan aelodau bellach yn wybodaeth gyhoeddus ar wefan y Cyngor. Holwyd os yw'n bosib i'r aelodau dderbyn negeseuon atgoffa personol ac uniongyrchol yn nodi yn union pa hyfforddiant nad ydynt wedi cwblhau. Esboniwyd bod nodyn ar gael ar dudalen personol aelodau ar y fewnrwyd i ddangos y wybodaeth yma ac yn nodi yn glir pa hyfforddiant craidd sydd wedi ei gwblhau. Anogwyd aelodau i gysylltu efo'r Swyddog Dysgu a Datblygu Aelodau os oes ganddynt unrhyw ymholiadau.

Holodd Aelod os oes modd i'r Pwyllgor weithredu i sefydlu maes hyfforddiant LGBTQI+ fel hyfforddiant craidd ychwanegol. Mynegodd Aelod ei fod yn gwrs ddefnyddiol iawn ac yn helpu lawer o ran yr iaith addas i ddefnyddio yn y gymuned LGBTQI+. Atgyfnerthwyd byddai'r cwrs yma yn helpu sicrhau bod aelodau'r Cyngor yn fwy agored a chroesawgar. Soniwyd bod modd adolygu'r holl feysydd craidd i aelodau dros y flwyddyn nesaf ac adnabod pa hyfforddiant craidd bydd disgwyl i'r aelodau eu cwblhau a'u dilyn yn y cylch etholiadol nesaf.

Mynegwyd yr awydd i aelodau gwblhau'r holl deitlau maes craidd yn fuan iawn yn y cyfnod etholiadol nesaf. Ystyriwyd y modd o glymu teitlau hyfforddiant craidd i swyddogaethau a seddi penodol o fewn cyfrifoldebau aelodau. Megis, sicrhau bod aelodau yn mynychu hyfforddiant penodol ym maes gofal, os ydynt am fod yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Gofal. Cyfeiriwyd at ddatblygiadau'r Strategaeth Datblygu Aelodau, gyda'r bwriad o gryfhau disgwyliadau hyfforddiant i Aelodau. Sicrhawyd y bydd y Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd, cyn ei fabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor Llawn ym Mawrth 2027

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00yb a daeth i ben am 14:00yp.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Mehefin 2026** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Drafft o adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad a'i gynnwys, a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

2.2 Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- **Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.**

2.3 Yn unol a'r arfer, mae'r adroddiad blynyddol yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Adroddiad ar ffurf drafft a gyflwynir i chi heddiw, gyda chyfle i chi roi sylw ar ei gynnwys a'i ffurf. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf.

2.5 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eich sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o dimau yn fy nghynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i'r tîm dysgu a datblygu, a'r holl swyddogion eraill sy'n cynorthwyo i'ch cefnogi yn eich rôl.

# Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

2025/2026



# RHAGAIR

Rwyf bellach wedi bod yn fy rôl fel Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng Ngwynedd ers 4 o flynyddoedd. Dros y cyfnod rwyf wedi dysgu llawer ac wedi gwerthfawrogi eich sylwadau i fod yn gwella'r gwasanaeth ar eich cyfer. Mae'r byd yn newid yn barhaus ac rydym yn ceisio ein gorau i fod yn addasu'r gefnogaeth sydd ar gael yn unol a'r heriau newydd.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol yn amlinellu'n gryno iawn y gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr Gwynedd.

Mae fy niolch yn benodol i'r Cynghorydd Anne Lloyd-Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, ynghyd ag aelodau'r pwyllgor hwnnw am eu mewnbwn a sylwadau craff. Diolch hefyd i'r holl swyddogion sy'n gweithio'n galed yn cefndir.

Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi dros y flwyddyn i ddod wrth baratoi at etholiad Mai 2027.

Diolch a chofion,
Ian



*Ian Jones,*

**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

# CEFNOGAETH I CHI FEL CYNGHORWYR

Mae nifer o dimau ar draws y Cyngor yn cynnig cefnogaeth i chi fel Cynghorwyr. Fodd bynnag, mae'r prif ddarpariaeth yn dod gan y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith. Mae rhai newidiadau wedi bod yn ystod 2025/26, felly dyma drosolwg o'r newidiadau diweddaraf:



**Ymddeoliad Eirian**

Bu i Eirian Roberts ymddeol wedi bron i 40 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2026.



**Ymddeoliad Sian**

Mae Sian wedi bod yn gyfrifol am y gwaith dinesig yn cefnogi'r Arglwydd Raglaw a'r Cadeirydd, yn ogystal ag ymgymryd â nifer o ddyletswyddau amrywiol eraill dros y blynyddoedd. Pob dymuniad da i ti Sian a diolch.



**Penodiad Courtney**

Mae Courtney Jones yn Swyddog Democratiaeth a Dinesig, ac wedi cychwyn yn y rôl ers Mehefin 2025. Bydd Courtney yn cyflawni dyletswyddau dinesig i'r dyfodol.



**Penodiad Gwen**

Croesawyd Gwen Roberts fel Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth yn ystod cyfnod yr haf 2025. Mae Gwen bellach yn gyfrifol am gefnogi cyfarfodydd y Cabinet.




**Penodiad Sera**

Mae Sera Whitley hefyd wedi ymuno gyda'r tîm gan gymryd cyfrifoldeb am gefnogi pwyllgorau Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd.



**Penodiad Catrin**

Penodwyd Catrin Meirion Owen i rôl Swyddog Datblygu Aelodau yn y Tîm Dysgu a Datblygu ystod y flwyddyn. Dymunwn yn dda i Cara Williams yn ei rôl newydd.



**Cymorth i Grwpiau Gwleidyddol**

Bu i ni groesawu a ffarwelio â swyddog a fu'n cynorthwyo grwp Plaid Cymru yn ystod y flwyddyn. Edrychwn ymlaen i gael cefnogaeth lawn i'r grwpiau dros y flwyddyn i ddod.



**Cymhwyso Lowri**

Llongyfarchiadau i Lowri Elin Evans sydd wedi cymhwyso fel cyfieithydd gyda'r tîm cyfieithu. Efallai nad ydych yn ei gweld yn aml, ond mae nifer ohonoch yn ei chlywed yn cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd amrywiol. Llongyfarchiadau Lowri!

*Gwelir fod nifer o newidiadau wedi bod eto eleni, ac rwy'n dymuno llongyfarch y gwasanaeth ar barhau i gynnig gwasanaeth i'r safon uchaf tra'n anwytho staff newydd i'w rolau*

# CEFNOGAETH I AELODAU ETHOLEDIG



# LLWYDDIANNAU 2025/26

**Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn eich gwasanaethu yn eich rôl fel Cynghorwyr trwy gydol y flwyddyn.**

**Mae gan y gwasanaeth ddau fesurydd perfformiad.**

**Cyhoeddi taflenni Penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith.**

Mae gofyn cyfreithiol i'r gwasanaeth gyhoeddi taflenni penderfyniad ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor, a hynny er mwyn cael datganiad clir o'r penderfyniad er tryloywder i'r cyhoedd. Cyhoeddwyd 98% o'r Taflenni Penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith yn 2025/26, sy'n gynnydd ar y 94% yn 2024/25. Roedd y man lithriadau yn sgil y system ddim yn gweithio ac aros am sylwadau gan swyddogion penodol.

**Bodlonrwydd Aelodau gyda gwasanaeth y Tîm Democratiaeth.**

Nododd 88% o Gynghorwyr Gwynedd bod gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda iawn, gyda 12% yn nodi 'da'. Roedd hyn yn gynnydd o'r 97% nododd da iawn neu da yn 2024/25, a'r 91% yn 2023/24.

*Gweler isod lwyddiannau eraill sy'n rhan o waith dydd i ddydd y gwasanaeth:*

- Cynnal y rhaglen bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn, dros 150 o gyfarfodydd i gyd, yn gyfarfodydd rhithiol ac aml-leoliad gan sicrhau gwe ddarlledu y cyfarfodydd perthnasol i gyd.

→ *Bu i dros 22 mil o bobl wylio'r gweddarllediadau dros y flwyddyn.*

- Cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn a dau gyfarfod arbennig o bwyllgorau craffu er mwyn sicrhau cyfle i'r holl aelodau roi mewnbwn i ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Cyfiawnder drwy ein dewrder.

→ *Dros 14 awr o graffu'r cynllun yn ei gyfanrwydd cyn i'r Cabinet ei ystyried.*

- Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn holl bwyllgorau'r Cyngor ac mewn cyfarfodydd anffurfiol, a chynnig gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig i holl adrannau'r Cyngor.

→ *Yn 2025/26, fe wnaeth y tîm gyfieithu 4.5miliwn gair mewn dogfennau. Yn ogystal, darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn 55 cyfarfod y mis ar gyfartaledd.*

- Cynnig cefnogaeth benodol i Gadeirydd ac is-Gadeirydd y Cyngor yn ogystal a Chadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor trwy hyfforddiant penodol, ateb ymholiadau yn ystod pwyllgor a pharatoi taflenni briffio ar eu cyfer.

- Darperir cefnogaeth trwy'r Fforwm Craffu i'r Cadeiryddion Craffu, yn ogystal a'r gefnogaeth dydd i ddydd iddynt ar gyfer pob cyfarfod o'r pwyllgor.

→ Cynnal 4 cyfarfod o'r Fforwm Craffu dros y flwyddyn i roi cyfle i'r Cadeiryddion drafod datblygiadau ym maes craffu a chefnogi a herio ei gilydd.

- Croesawu dau Gynghorydd newydd yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau fod darpariaeth TG a gwybodaeth gyfredol ar gael iddynt.

- Gweinyddu cyflogau a chostau Cynghorwyr a chyhoeddi'r wybodaeth yn unol a'r gofynion statudol.

- Cynnal rhaglen lawn o hyfforddiant i Gynghorwyr ac ymgynghori ar gynnwys y rhaglen hyfforddiant gyda'r Cynghorwyr.

→ Cynhaliwyd 17 sesiwn yn ystod y flwyddyn.

- Blaenoriaethu a chynnal sesiynau briffio ar bynciau pwysig i'r holl aelodau, gan eu recordio a'u gosod ar y mewnrwyd aelodau hefyd i gynorthwyo rhai sy'n gweithio.

→ Cynhaliwyd a recordiwyd 8 sesiwn friffio yn ystod y flwyddyn.

- Gweinyddu pwyllgorau rhanbarthol, yn arbennig Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i is-fyrddau. Cyfrannu'n helaeth at waith datblygu Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i is-fyrddau.

- Cynnal sesiynau hyfforddiant ar drefniadau democratiaeth y Cyngor ar gyfer aelodau o staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall y trefniadau.

→ *Peilot wedi ei gynnal a chyfres o'r sesiynau wedi eu trefnu ar gyfer 2026/27.*

# CYFLAWNI AR FLAENORIAETHAU 2025/26

**Bu i mi nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer 2025/26 yn ychwanegol i'r gwaith dydd i ddydd. Dyma diweddariad yn erbyn yr hyn y bu i mi ei addo.**

---

## Beth wnaethom ei addo?

**Cychwyn paratoi at Etholiad Mai 2027 gan edrych ar :**

- **Drefniadau cyn etholiad**
- **Trefniadau diwrnod yr etholiad**
- **Trefniadau croesawu ac anwytho**
- **Trefniadau y 6-12 mis cyntaf ac amlinelliad o drefniadau'r ail flwyddyn**
- **Cefnogaeth gyffredinol i Gynghorwyr**

## Diweddariad

Mae'r gwaith wedi cychwyn yn y cefndir i adnabod yr holl wahanol gamau sydd angen eu cyflawni fesul pob un o'r teitlau uchod.

Yn ogystal, penderfynwyd fod angen ymgynghori gydag aelodau felly mae grŵp bychan o gynghorwyr o bob plaid wedi gwirfoddoli i gymryd rhan mewn trafodaethau penodol fesul maes i rannu eu profiadau hwy. Mae'n cynnwys 4 aelod o bob grŵp gyda hanner wedi ymuno cyn 2022 a'r gweddill ar ôl 2022. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a bydd cynnydd ar y gwaith yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwasanaethau democratiaeth dros y misoedd nesaf.

## Beth wnaethom ei addo?

**Byddwn yn adolygu y ddarpariaeth yn y siambrau o ran cyfarpar ac ansawdd y profiad. Byddwn yn anelu i ddatblygu astudiaeth dichonolrwydd a chynllun gwella yn ystod tymor yr Hydref, 2025.**

## Diweddariad

Rydym wedi asesu ein darpariaeth yn y siambrau o ran cynaliadwyedd y cyfarpar cyfredol, yn ogystal ac ansawdd y profiad i'r defnyddwyr (boed yn ddefnyddiwr y siambr neu'n ddefnyddiwr y system).

Daeth yn glir fod y ddarpariaeth gyfredol yn ein siambrau yn fregus iawn, ac yn golygu risg uchel i'r Cyngor o allu parhau i ddarparu cyfarfodydd aml-leoliad a chynnal trefniadau democratiaeth y Cyngor. Rydym wedi profi nifer o fethiannau yn gyson, ac wedi llwyddo er waethaf y system.

Mae nifer fawr o aelodau hefyd wedi rhannu eu rhwystredigaeth o'u profiad o gyfarfodydd aml-leoliad, ac mae'r swyddogion sy'n cynnal yr holl broses yn gorfod gweithio'n galed i ddatrys gwahanol broblemau fesul cyfarfod.

Cyflwynwyd bid am arian trwy'r trefniadau arferol, fodd bynnag, mae adroddiad manylach wedi ei gyflwyno bellach er mwyn bwrw ymlaen gyda mynd allan i'r farchnad i chwilio am ddarparwr priodol. Bydd bwrdd prosiect yn cael ei sefydlu i yrru'r gwaith ymlaen yn y ffordd orau posib.

## Beth wnaethom ei addo?

**Gwneud gwell defnydd o amser a chefnogaeth cynorthwywyr y grwpiau gwleidyddol. Rhesymoli'r rhaglen hyfforddiant a rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser Cynghorwyr ac adnoddau'r Cyngor.**

## Diweddariad

Bu'n flwyddyn ansefydlog o ran cefnogaeth cynorthwywyr y grwpiau gwleidyddol gyda chyfnodau heb swyddogion yn y rolau. Mae fy niolch yn fawr i weddill y gwasanaeth am ymgymryd gyda rhai o'r tasgau sy'n cael eu cyflawni gan y swyddogion hyn dros y flwyddyn diwethaf. Gobeithio y bydd modd symud ymlaen gyda chyflawni mwy ar yr elfen yma yn ystod 2026/27 a 2027/28.

Mae camau sylweddol wedi eu cymryd i resymoli'r rhaglen hyfforddiant a'r rhaglen sesiynau briffio – gyda chanmoliaeth i'r sesiynau briffio byr ac i bwrpas.

## Beth wnaethom ei addo?

**Codi ymwybyddiaeth Cynghorwyr o'r angen i adrodd ar unrhyw ddigwyddiad neu fygythiad gan lenwi a dychwelyd y ffurflenni perthnasol (HS11).**

## Diweddariad

Yn anffodus mae diogelwch i Aelodau Etholedig yn parhau'n bwnc sydd angen sylw'n gyson. Mae cefnogaeth benodol gan swyddog dynodedig yn Heddlu Gogledd Cymru ac maent wedi cynnig nifer o sesiynau rhithiol i aelodau o ran ystyried eu diogelwch. Yn ogystal, mae'r swyddog wedi cynorthwyo a chynghori rhai aelodau unigol pan fo materion wedi codi.

Mae cefnogaeth wedi ei gynnig i nifer o aelodau unigol pan fo materion diogelwch neu lles wedi codi, gan gyfeirio at yr arweiniad sydd ar gael ar y mewnrwyd aelodau, a chynorthwyo eraill mewn modd ymarferol. Rydym yn ymwybodol fod nifer o Gynghorwyr yn wynebu bygythiadau yn eu cymunedau ac yn annog pawb i adrodd ar hyn.

Nid ydym wedi hyrwyddo llenwi'r ffurflenni HS11 sy'n casglu gwybodaeth am fygythiadau a digwyddiadau gan fod system electroneg wedi ei datblygu dros y flwyddyn a fu. Rydym wedi treialu'r trefniadau newydd gydag un aelod yn ddiweddar, a byddwn yn cynnal hyfforddiant ar y trefniadau adrodd i'r holl aelodau yn fuan yn 2026/27.

## Beth wnaethom ei addo?

**Mabwysiadu 8fed maes o hyfforddiant craidd i Gynghorwyr, sef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

## Diweddariad

Mae'r meysydd hyfforddiant craidd wedi eu hadnabod er mwyn arfogi Cynghorwyr i gyflawni yn eu rôl yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Orffennaf 2025 cafodd yr 8fed maes craidd ei fabwysiadu yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi bod yn cadw golwg ar nifer yr aelodau sydd wedi cyflawni pob maes o'r hyfforddiant craidd. Trafodwyd siom aelodau'r pwyllgor fod cynifer o aelodau heb gyflawni'r 8 maes hyfforddiant craidd, er bod modd i aelodau wneud hynny yn eu amser eu hunain ar lein bellach. Codwyd risg i'r Cyngor fod rhai yn parhau heb gyflawni meysydd allweddol ee y cod ymddygiad a diogelu.

Yn sgil cais aelodau'r Pwyllgor, mae'r Rheolwr Dysgu a Datblygu yn adolygu'r meysydd hyfforddiant ac yn datblygu Strategaeth Hyfforddi i Aelodau Etholedig ar gyfer 2027/28 ac ymlaen. Bydd y Strategaeth yn nodi'r disgwyliadau ar aelodau'n glir, gyda'r pwyslais ar alluogi Aelodau i gyflawni'n llwyddiannus a diogel yn eu rôl.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2026/27

Rwy'n gyfforddus fod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae'n amser i gychwyn edrych a meddwl am drefniadau Mai 2027 ac ymlaen, ac mae'r blaenoriaethau isod i gyd ynghlwm â chychwyn paratoi mewn da bryd:

**Paratoi at Etholiad Mai 2027**

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith sydd eisoes wedi cychwyn yn edrych ar

- Drefniadau cyn etholiad
- Trefniadau diwrnod yr etholiad
- Trefniadau croesawu ac anwytho
- Trefniadau y 6-12 mis cyntaf ac amlinelliad o drefniadau'r ail flwyddyn
- Cefnogaeth gyffredinol i Gynghorwyr.

**Diweddaru'r adnoddau yn y siambrau**

Bydd y prosiect yn dilyn y trefniadau caffael angenrheidiol er mwyn diweddaru'r cyfarpar yn y siambrau er mwyn galluogi cyfieithu ar y pryd, mynediad o bell, pleidleisio a gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor o'r siambrau. Rydym am sicrhau fod y profiad i ddefnyddwyr y siambrau, i bobl Gwynedd sy'n gwylio'r gweddarllediadau ac i staff y Cyngor sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r system am fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac effeithiol. Bydd rhaid amserlenu'r gwaith yn ofalus, ac mae'n debygol y bydd peth effaith ar bwyllgorau wrth anelu i'r cyfan fod mewn lle i groesawu Cynghorwyr tymor 2027 ac ymlaen. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw warant y byddwn yn gallu cwblhau o fewn yr amserlen hon.



# I GLOI

Mae'n debyg y bydd pob un ohonoch fel Aelodau Etholedig yn ystyried yr hyn yr ydych chi am ei wneud ar gyfer tymor 2027. Dymunaf ddiolch i bob un ohonoch am eich mewnbwn dros y blynyddoedd, a dymuniadau gorau i bawb sy'n sefyll yn yr etholiad nesaf neu'n penderfynu sefyll i lawr.



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 16 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL MAI 2027 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi at Etholiad 2027 |
| **ARGYMHELLIAD** | **Nodi a derbyn yr adroddiad.** |
| **AWDUR** | Annes Sion<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth |

RHAGAIR

1. Rydym oll yn ymwybodol fod etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027. Yn sgil hyn mae cryn waith paratoi – gennych chi fel aelodau etholedig, gan y grwpiau gwleidyddol, ac yn ogystal gennym ni fel swyddogion.

2. Mae'r gwaith eisoes ar y gweill, gyda thair prif thema i'w hystyried. Mae'r themâu sydd wedi eu hadnabod fel a ganlyn:
    - Paratoi cyn yr etholiad (gan gynnwys hybu amrywiaeth mewn democratiaeth)
    - Canlyniadau/ diwrnod etholiad
    - Anwytho a'r rhaglen hyfforddiant

3. Paratoi.
   Yn naturiol, mae nifer o is rannau fesul thema. Mae'r rhaglen waith ar gyfer yr elfen paratoi yn cynnwys:

| Cam gweithredu | Manylion |
|---|---|
| Sicrhau gwybodaeth lawn i ddarpar ymgeiswyr ar y safle we | Byddwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd cyn etholiadau 2022 gan ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar y safle we a'i wneud yn haws i'w ddarganfod. |
| Hybu amrywiaeth | • Byddwn yn bwrw ati i greu fideos syml i esbonio beth yw rôl cynghorydd gan annog amrywiaeth mewn democratiaeth ar yr un pryd.<br>• Sesiynau i'w cynnal cyn yr etholiad i egluro i unrhyw un sy'n ystyried sefyll beth yw rôl aelod ac i roi cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau. |
| Adolygu Swydd Ddisgrifiadau Aelodau | • Gan fod mân addasiadau wedi eu gwneud i'r swydd ddisgrifiadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, byddwn yn ail edrych ar y swydd ddisgrifiadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Byddant yn cael eu cyflwyno i chi fel aelodau yn y Cyngor Llawn. |
| Mewnrwyd Aelodau | • Bu i'r Fewnrwyd Aelodau gael ei ddatblygu cyn etholiad 2022, ac erbyn hyn mae angen ail edrych arno a'i ddatblygu ymhellach i'w wneud yn fwy defnyddiol i Aelodau Etholedig. |

4. Nodwyd uchod fod gwaith paratoi ar gyfer hybu Amrywiaeth mewn democratiaeth ar waith. Mae adroddiad a rhaglen waith yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor heddiw yn amlygu'r gwaith hwnnw. Byddwn yn anelu at ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.

5. Canlyniadau/ diwrnod etholiad
Bu cryn werthfawrogiad o'r gwaith a wnaethpwyd gogyfer etholiadau 2022, yn arbennig y llwyddiant i gyhoeddi canlyniadau'r etholiad fesul ward fel ag yr oeddent yn cael eu datgan. Byddwn yn sicrhau fod trefniadau mewn lle i gael llwyddiant cyffelyb yn 2027.

6. Anwytho a'r rhaglen hyfforddiant.
Mae dwy brif elfen i'r gwaith anwytho, sef y diwrnod neu ddyddiau croeso a'r rhaglen hyfforddiant am y flwyddyn gyntaf.

7. Bu canmoliaeth am y trefniadau yn dilyn etholiad 2022, yn arbennig y dyddiau croeso. Fodd bynnag, nodwyd ar y pryd fod gwersi i'w dysgu. Rydym wedi derbyn sylwadau eraill dros y blynyddoedd hefyd, sydd am fod o gymorth wrth lunio trefniadau gwahanol a gwell ar gyfer 2027. Mae'n falans hynod o anodd I'w daro rhwng cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i arfogi pob Aelod i ymgymryd a'r rôl i orau eu gallu, a pheidio boddi Aelodau gyda gormod o wybodaeth ar yr un pryd.

8. Mae'r prif gamau gweithredu ar gyfer yr elfennau uchod o waith sydd yn cynnwys:

| **Cam gweithredu** | **Manylion** |
|---|---|
| Diwrnod / dyddiau croeso | • Adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd yn 2022.<br>• Llunio rhaglen ddrafft yn ymateb i'r gwelliannau o 2022.<br>• Sicrhau blaenoriaethu'r materion sydd angen sylw ar y dyddiau croeso, gan drefnu sesiynau anwytho pellach yn y cyfnod rhwng Mai – Gorffennaf 2027. |
| Rhaglen anwytho'r flwyddyn gyntaf | Blaenoriaethu hyfforddiant mandadol gan geisio taro'r balans rhwng sicrhau fod aelodau, yn arbennig aelodau newydd, wedi eu harfogi gyda'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni'r rôl, ond nad ydynt yn cael eu boddi gyda gormod o wybodaeth ac hyfforddiant. |

9. Mae datblygiadau yn unol â'r rhaglenni gwaith a nodir yn fras uchod eisoes wedi cychwyn gan wahanol dimau o swyddogion. Croesewir unrhyw sylwadau ar y rhaglen waith.

10. Sylwadau Aelodau.
Er mwyn sicrhau ein bod yn cael eich barn a'ch mewnbwn chi fel aelodau i fod yn rhan ganolog o'r gwaith datblygu ar gyfer yr etholiad. rydym wedi creu grwp bychan o Aelodau i rannu eu barn. Mae'n draws doriad o aelodau profiadol ac eraill wedi ymuno'n fwy

diweddar, ac maent yn cynnig sylwadau ar feysydd trafod penodol.   Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf  ym mis Ebrill, gyda chyfarfod misol wedi ei rhaglennu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd y grŵp trafod yn edrych ar faterion megis:

i. Mewnrwyd Aelodau a Chyfathrebu
ii. Technoleg Gwybodaeth
iii. Hyfforddiant.

11. Mae croeso i chi fel aelodau'r Pwyllgor Gwasanaeth Democratiaeth ymuno yn ogystal pe dymunwch.

Byddwn yn eich diweddaru o’r gwaith paratoi drwy adroddiadau cyson i’r pwyllgor yma.

**12. PENDERFYNIAD A GEISIR**
**Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi a derbyn yr adroddiad**

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16 Mehefin 2026 |
| **TEITL YR EITEM** | DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH HYBU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH |
| **PWRPAS** | Cyflwyno datganiad drafft ynghyd â'r rhaglen waith i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Annes Sion – Arweinydd Tim Democratiaeth |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu y Datganiad Amrywiaeth Mewn Democratiaeth (ar ei newydd wedd) ynghyd â'r rhaglen waith i gefnogi gweithredu ar y datganiad.

**2. CEFNDIR A RHESYMEG**

**Rhagair**

3. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gefnogol i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth, gyda nifer o gamau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i geisio annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau.

4. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref, 2021 bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth – gan ddatgan yn glir a chyhoeddus ein ymrwymiad ni yma yng Ngwynedd.

5. Gydag etholiadau Llywodraeth Leol Cymru ar y gweill ym mis Mai 2027, mae'n amserol adolygu'r datganiad cyhoeddus fod Cyngor Gwynedd yn hybu a hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth. Er nad yw'n ofyn statudol rydym yn grediniol fod aelodau etholedig cyfredol Cyngor Gwynedd yn awyddus i sicrhau cynrychiolaeth deg o'r gymdeithas yng Ngwynedd i sefyll yn yr etholiadau ac felly'n annog unigolion o bob cefndir i wneud hynny.

6. Mae adolygiad o’r datganiad yn **atodiad 1. Nid oes newid sylweddol yn y datganiad, namyn mân ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Fodd bynnag, mae’n bwysig ein bod yn ail ddatgan ein ymrwymiad i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth cyn etholiad Llywodraeth Leol 2027.**

7. Mae **atodiad 2** yn cynnwys rhaglen waith i sicrhau fod y Cyngor yn cymryd camau penodol i geisio hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwireddu’r datganiad uchod.

8. Gofynnwn i chi fel aelodau y Pwyllgor am eich sylwadau ar yr adolygiad o’r datganiad, ynghyd a’r cynllun gwaith fel y gellir eu cyflwyno i’w mabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.

**Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd**

Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Trwy hynny, rydym yn awyddus i fod yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi gan geisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl, pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n adnabod fel LGTBQ+ sy'n sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd Gwynedd.

Rydym yn ymrwymo i

- Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth
- Ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf
- Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2027.
- Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr
- Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol
- Barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.
- Weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel.

**Gwynedd Council Diversity Statement**

*This Council commits to being a Diverse Council.  Therefore, we wish to reflect the community in which we live by increasing the number of females, young people, disabled people, people from the Black, Asian and minority ethnic communities and people who identify as LGBTQ+ who stand in the elections to be a Gwynedd Councillor.*

*We commit to*

- *Provide a clear public commitment to improving diversity in democracy*
- *Demonstrate an open and welcoming culture to all, promoting the highest standards of behaviour and conduct*
- *Promote actions as a Diverse Council ahead of the 2027 local elections*
- *Demonstrate a commitment to a duty of care for Councillors*
- *Consider how to provide flexibility in council business by reviewing our practical arrangements*
- *Continue to encourage all members to take up the allowances and salaries to which they are entitled, particularly any reimbursement for costs of care, so that all members receive fair remuneration for their work and that the role of member is not limited to those who can afford it.*
- *Work towards ensuring that councillors from under-represented groups are represented whenever possible in high profile, high influence roles.*

**ATODIAD 2 – RHAGLEN WAITH DDRAFFT**
**Wrth ymrwymo i fod yn Cyngor Amrywiol, rydym am:**

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth* | Cyngor llawn yn mabwysiadu adolygiad o'r datganiad amrywiaeth.<br><br>Holi aelodau am eu profiadau, gan gynnwys pa rwystrau sydd wedi eu hwynebu a pha gamau ychwanegol y gellir eu cymryd i ddileu'r rhwystrau hyn.<br><br>Diweddaru safle we 'bod yn gynghorydd' gan weithio gyda'r tîm etholiadau.<br><br>Parhau i godi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd gan weithio gyda'r tîm etholiadau a'r tîm cyfathrebu i godi sylw at fuddion pleidleisio a chodi ymwybyddiaeth o etholiadau Llywodraeth Leol ar yr un pryd.  Y cyfan yn annog unigolion i ystyried bod yn gynghorydd.<br><br>Parhau i weddarlledu cyfarfodydd er mwyn bod yn agored a thryloyw.  Ystyried datblygu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal a'r eitemau sy'n cael eu trafod. | 07/2026<br><br>Tachwedd/ Rhagfyr 2026<br><br>Medi / Hydref 2026<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| *Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf* | Cyngor Llawn yn datgan cefnogaeth i ymgyrch Un Llais Cymru, NALC a SLCC 'Adduned Parch a Chwrteisi'  yn sgil rhybudd o gynnig Arweinydd y Cyngor.<br><br>Codi ymwybyddiaeth arweinyddion y grwpiau gwleidyddol cyfredol i'r posibiliadau o hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a'r gofynion ynghylch hyrwyddo'r safonau ymddygiad o'r lefel uchaf yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021,<br><br>Datblygu rhaglen anwytho gynhwysfawr yn seiliedig ar fframwaith anwytho Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad (gan gynnwys parch at eraill), a Chydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys hunan ymwybyddiaeth ac ymddygiad).<br><br>Datblygu Strategaeth Hyfforddi i Aelodau a fydd yn amlinellu trefniadau penodol i Aelodau er mwyn cynnig datblygiad parhaus. | Mehefin 2026<br><br>Hydref 2026<br><br>Ebrill 2027<br><br>Ebrill 2027 |
| *Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2027* | Cynnal rhaglen barhaus o weithgareddau ar lein er mwyn hyrwyddo rôl Cynghorwyr a chodi ymwybyddiaeth i etholiadau Llywodraeth Leol gan annog unigolion i ystyried sefyll<br><br>Cynnig sesiwn cwestiwn ac ateb ar gyfer pobl sy'n ystyried sefyll. Bydd yn cynnwys esboniad o rôl cynghorydd, disgwyliadau, ymrwymiad, cyfleon, cefnogaeth ayyb.  Bydd fideos o wahanol gynghorwyr yn rhannu eu profiadau yn debygol o fod yn rhan o'r gweithgaredd. | Hydref 2026 – Etholiad<br><br>Ionawr / Chwefror 2027 |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| *Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr* | Ystyried cynnal hyfforddiant penodol i Gynghorwyr newydd ar weithio'n unig, diogelwch personol, balans bywyd a gwaith, bwlio a'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r rhaglen anwytho dros y flwyddyn gyntaf.<br><br>Darparu cefnogaeth ac arweiniad ar faterion ymarferol o safbwynt gosod gweithfan yn gywir – gwybodaeth ar safle mewnrwyd y cynghorwyr.<br><br>Rhoi'r cynnig rhagweithiol i Gynghorwyr i'w holi a ydynt yn dymuno cyhoeddi eu cyfeiriad cartref ac/neu rif ffôn ar y wefan, neu beidio – gan gyhoeddi cyfeiriad e-bost swyddogol yn unig os mai dyna dymuniad Aelod unigol.<br><br>Codi ymwybyddiaeth arweinyddion gwleidyddol o'r dyletswydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch hyrwyddo ymddygiad da. | Ebrill 2027<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Tachwedd 2026 |
| *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol* | Gweithredu cyfarfodydd hybrid a chyfarfodydd rhithiol llwyr er mwyn gwneud gwell defnydd o amser Cynghorwyr.<br><br>Cynnal holiadur yn dilyn etholiad 2027 ar amseru cyfarfodydd prif bwyllgorau'r Cyngor.<br><br>Ystyried cyfnodau gwyliau ysgol (gan eu hosgoi lle bo'r modd) wrth lunio calendr cyfarfodydd blynyddol y cyngor gan ymgynghori gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.<br><br>Sicrhau hyfforddiant a chymorth i Gynghorwyr i fod a'r sgiliau technegol i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol ac/neu hybrid. | Rŵan / parhaus<br><br>2027/28<br><br>Blynyddol<br><br>parhaus |
| *Parhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio* | Gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol i fod yn rhan o'r sesiynau i'r cyhoeddus, yn wybodaeth ar ein safle we, a gwybodaeth a fydd yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn y sesiynau anwytho.<br><br>Cyflogau yn cael eu talu yn awtomatig i Gynghorwyr yn unol â dyfarniad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru , oni bai fod Cynghorydd unigol yn nodi yn wahanol.<br><br>Atgoffa Cynghorwyr yn gyson o'r ad-daliad costau gofal sydd ar gael – trwy'r Bwletin Aelodau a gan yr Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol. | Hydref 2026 ymlaen<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| *Gweithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel* | Gweithio gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer rolau proffil a dylanwad uchel. | 2027/28 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 16 Mehefin 2026 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Mari Edwards, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad |

## 1.0 TROSOLWG

1.1 Mae **8** teitl sydd yn hyfforddiant Craidd i Aelodau. Mae'r rhain yn hyfforddiant sydd yn cefnogi Aelodau wrth eu gwaith ac mae anogaeth gryf i chi fod yn eu cwblhau fel **isafswm** er mwyn gallu cyflawni y rôl yn effeithiol.

1.2 Dyma ddiweddariad ar y niferoedd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd:

| Teitl Craidd | Niferoedd wedi cwblhau ym Mehefin 2026 | Niferoedd HEB gwblhau |
|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 50 | 18 |
| Cod Ymddygiad | 53 | 15 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 32 | 36 |
| **Diogelu Plant ac Oedolion** | **59** | **9** |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 38 | 30 |
| Gwybodaeth am Bobl | 50 | 18 |
| Rhiantu Corfforaethol | 45 | 23 |
| Trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol (Grŵp F) | 49 | 19 |

1.3 Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i annog a chefnogi Aelodau i fod yn cwblhau'r teitlau yma, a hynny yn digwydd yn rheolaidd. Er hyn, prin iawn yw'r cynnydd sydd wedi bod yn y ffigyrau cwblhau ers Chwefror 2025.

1.4 Fel ag y mae pethau yn sefyll ar hyn o bryd, mae 22 o Aelodau wedi cwblhau pob un o'r wyth teitl Craidd, gydag 11 o'r rheini wedi cwblhau yr hyfforddiant yn ystod y cylch etholiadol yma (ers Mai 2022). Rydym yn diolch am y gefnogaeth barod i'n gwaith ni gan yr aelodau yma.

Mae 3 o Aelodau heb gwblhau ddim un o'r wyth teitl Craidd. Hyn yn dilyn sawl cais yn gofyn i Aelodau sicrhau eu bod yn cwblhau hyfforddiant a

cheisio hwyluso'r drefn, gan roi recordiadau o'r hyfforddiant Craidd ar Fewnrwyd yr Aelodau. Byddwn yn gwerthfawrogi cymorth i annog yr Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant, adnabod ei bwysigrwydd ac i unrhyw un gysylltu gyda ni os am holi neu gael cymorth i gwblhau'r hyfforddiant.

## 2.0 DYSGU A DATBLYGU

2.1 Er mwyn hwyluso cyfleoedd i Aelodau fod yn cwblhau'r teitlau Craidd datblygwyd adnodd ar-lein i gynnig mwy o hyblygrwydd. Mae recordiadau o mwyafrif o'r teitlau Craidd bellach ar gael Fewnrwyd yr Aelodau. Mae'r adnodd yma yn sicrhau bod pob Aelod yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant ar unrhyw amser.

Os oes unrhyw broblem yn codi wrth fod yn methu a chwblhau'r hyfforddiant wrth ddefnyddio'r adnodd hwn, dylid cysylltu gyda ni yn y gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn i ni allu bod o gymorth a sicrhau bod pob Aelod yn cwblhau'r hyfforddiant.

2.2 Yn dilyn rhedeg cwrs ychwanegol ar y 6ed o Fawrth 2026, mae sesiwn ychwanegol arall o'r hyfforddiant **Diogelu Plant ac Oedolion** wedi ei drefnu ar gyfer yr **2ail o Fedi, 2026**. Anogir pob Aelod sydd heb gwblhau y cwrs yma neu sydd heb ei gwblhau yn ystod y dair mlynedd diwethaf i fod yn mynychu'r sesiwn yma.

2.3 Mae gwaith wedi cychwyn i edrych i fewn i'r hyfforddiant sydd yn disgyn o dan y teitlau Craidd i Aelodau Etholedig. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i pa deitlau sydd yn parhau i fod yn addas fel rhai Craidd ac ystyriaeth i LHDTCRA+. Mae opsiwn o ymgorffori yr hyfforddiant LHDTCRA+ fel rhan o'r hyfforddiant Cydraddoldeb a bydd gwaith o adnabod y camau i wneud hyn yn cael eu cymryd cyn Mai 2027.

2.4 Mae ceisiadau wedi bod yn Adroddiad Chwefror 2026 i adnabod mentoriaid ar gyfer unrhyw Aelodau newydd fydd yn cychwyn gyda ni ym Mai 2027 (neu unrhyw adeg arall). Does dim ymateb wedi bod i'r cais yma hyd yn hyn.

Rydym yn gofyn am ddau fath o fentor.

1. Y cyntaf fyddai Aelod Etholedig profiadol a fyddai fod yn ymateb i gwestiynau gan Aelod Etholedig newydd wrth iddyn nhw setlo yn eu rôl newydd. Yn syml, bod yn bwynt cyswllt i'r Aelod newydd ac bydd ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau eu bod o'r un plaid wleidyddol ble bynnag y bo modd.
2. Yn ail, mae cynnig i unrhyw Aelod a fyddai'n dymuno i fod yn derbyn sesiynau Cymhelliant neu Fentora i gysylltu gyda ni. Byddwn yn hyfforddi Aelodau Etholedig sydd yn dymuno bod yn fentor er mwyn cefnogi

Aelodau Etholedig eraill. Byddai hyn yn waith mwy arbenigol ac yn ffordd o ddatblygu yr hunan yn ogystal â'r unigolyn fydd yn cael ei gefnogi.

Byddai gwerthfawrogiad petai'n bosibl rhannu y wybodaeth yma gyda'r Aelodau Etholedig sydd ddim yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

2.5 Mae cynnig yn agored i unrhyw Aelod Etholedig sydd yn dymuno cael eu mentora yn agored hefyd. Gallwn gael cefnogaeth WLGA i adnabod Cymhellwyr allanol i gefnogi'r gwaith o fod yn Aelod os y byddai hynny yn fwy o fudd na cael mentor mewnol. Mae croeso i chi gysylltu â ni i ddatgan eich diddordeb.

2.6 Mae cynnig i Aelodau fod yn derbyn **sgwrs Datblygiad Personol** gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu neu Swyddog priodol arall a fyddai'n cyflawni yr un nod. Pwrpas y sgyrsiau yma yw i roi'r cyfle i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, ac efallai llunio Rhaglen Ddatblygu Bersonol i gwrdd a'u anghenion. Bydd y ddeilliannau o'r sgyrsiau datblygol yma yn caniatáu i ni fel gwasanaeth gynnwys amrediad o feysydd yn ogystal â dulliau/profiadau datblygol. Mae hefyd yn werthfawr i ni wrth lywio'r Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer y dyfodol. Cynigiwyd hyn i'r Aelodau Cabinet yn y lle cyntaf, ac mae'r cynnig bellach yn agored i'r holl Aelodau.

2.7 Mae **Strategaeth Hyfforddi Aelodau Etholedig** yn y broses o gael ei greu a bydd yn cael ei gyflwyno i chi unwaith y bydd yn barod.

**Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau ar yr hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a chymeradwyo y camau a gynigir.**